*Ysgol Plas Coch*
*Ffordd Stansty*
*Wrecsam*
*LL11 2BU*
*Ffôn: 01978 311198*
*Ffacs: 01978 311198*

Ysgol Plas Coch
Stansty Road
Wrexham
LL11 2BU
Tel: 01978 311198
Fax: 01978 311198

# YSGOL PLAS COCH

**Mr Osian Jones BA**
***Pennaeth* Head Teacher**

*E-bost*/E-mail: **mailbox@plascochpri.wrexham.sch.uk**
*Gwefan*/Website: https://ysgolplascoch.cymru

Medi'r 15fed 2025

Annwyl rieni a gwarchodwyr,

**PRESENOLDEB, ABSENOLDEB A PHRYDLONDEB**

Nawr fod pob disgybl wedi cychwyn / dychwelyd yn dilyn gwyliau'r haf, dyma gyfle i'ch hatgoffa o bwysigrwydd presenoldeb a phrydlondeb. Mae pob diwrnod o addysg yn cyfrif felly mae presenoldeb yn hollbwysig a gofynwn i chi ddarllen ac ystyried yr isod yn ofalus.

**Absenoldeb**

Yn unol â'r gyfraith mae'n ofynnol bod yr ysgol yn derbyn eglurhad am unrhyw absenoldeb. Y drefn i'w dilyn os yw eich plentyn yn absennol am unrhyw reswm yw:

- Ar ddiwrnod cyntaf absenoldeb eich plentyn, gofynwn i chi gysylltu â'r ysgol **cyn 9:30am** (ffôn, e-bost, neu mewn person i'r swyddfa/athro).
- Gadewch neges yn datgan enw, dosbarth eich plentyn a'r rheswm dros absenoldeb.
- Cysylltwch ar bob diwrnod o'r absenoldeb oni bai eich bod yn gwybod ar y diwrnod cyntaf fod eich plentyn yn mynd i fod i ffwrdd am fwy na diwrnod.

Os bydd rhieni'n methu â hysbysu'r ysgol, bydd yr ysgol yn gwneud pob ymdrech i gysylltu â'r rhieni / gwarchodwyr. Caiff yr absenoldeb ei gofnodi fel un diawdurdod os na wneir unrhyw gyswllt. Os methir â derbyn unrhyw gyswllt erbyn trydydd diwrnod yr absenoldeb byddwn yn cysylltu efo tim Gwasanaeth Cymdeithasol Addysg yr Awdurdod Lleol.

**Prydlondeb**

Mae prydlondeb hefyd yn ofyniad cyfreithiol a rhaid i ddisgyblion fynychu ar amser. Mae cyrraedd yn hwyr yn gyson yn medru cael effaith andwyol ar addysg a lles y plentyn ac mae hefyd yn amharu ar ddisgyblion a staff eraill yn y dosbarth ac ar draws yr ysgol. **Rhaid i rieni / gwarchodwyr bob disgybl sy'n cyrraedd ar ôl 9:00am fynd drwy'r brif fynedfa a llenwi'r manylion perthnasol yn y system arwyddo i mewn electronig yng nghyntedd yr ysgol.**

**Gwyliau**

Mae nifer uchel o geisiadau am wyliau wedi eu cyflwyno yn barod eleni, gyda llawer ar gyfer dechrau'r tymor (sy'n gallu creu trafferth o ran setlo mewn dosbarth newydd). Eto, gofynwn i chi wneud bob ymdrech i beidio mynd a'ch plentyn ar wyliau yn ystod y flwyddyn ysgol rhag amharu ar ei addysg ac i gofio nad yw dyddiau allan unigol na ymweliadau neu wyliau oherwydd penblwyddi yn gallu cael eu hawdurdodi.

Gyda diolch eto am eich cydweithrediad,

Osian Jones

*Cyfeirier pob gohebiaeth at y Pennaeth*
Please address all communications to the Headteacher

wrexham COUNTY BOROUGH
BWRDEISTREF SIROL wrecsam